

Richard Coates

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a
Pherfformiad Rheilffyrdd



Alexia Course

Prif Swyddog Masnachol, Trafnidiaeth Cymru

Stuart Evans

Pennaeth Rheilffyrdd, Llywodraeth Cymru

Trwy e-bost

14 Gorffennaf 2026

Annwyl Alexia, Stuart

Asesiad blynyddol ORR o lwybr Cymru a'r Gororau Network Rail

Rwyf yn ysgrifennu atoch i grynhoi ein hasesiad o berfformiad llwybr Cymru a'r Gororau Network Rail yn 2025-26. Mae llwybr Cymru a'r Gororau wedi ei leoli o fewn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr Network Rail. Mae'n gweithredu ac yn cynnal y rheilffordd ledled Cymru a siroedd gororau Lloegr. Gellir gweld gwerthusiad o berfformiad cenedlaethol Network Rail yn ein Asesiad Blynyddol o Network Rail ar gyfer 2025-26.

Darparu gwasanaeth dibynadwy a phrydlon i deithwyr

Mae llwybr Cymru a'r Gororau wedi cael blwyddyn galonogol o safbwynt perfformiad trenau teithwyr. Mae prydlondeb a dibynadwyedd wedi gwella, gan barhau tueddiad cadarnhaol dros y cyfnod rheoli hwn. Mae Network Rail wedi canolbwyntio ar weithredu'r cynllun gwella perfformiad hwn y gwnaethom ei gyflwyno yn ein gorchymyn terfynol ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn ein canfyddiad o dorri amodau'r drwydded ynghylch perfformiad gwasanaethau rheilffyrdd. Mae wedi gweithredu ar ein hargymhellion ac wedi sefydlu prosesau a llywodraethiant gwell ar gyfer rheoli perfformiad trenau. O ganlyniad, rydym wedi asesu bod Network Rail wedi cydymffurfio â'n gorchymyn gorfodi.

Mae Network Rail wedi cyflawni pob un o'i 13 o weithgareddau gwella perfformiad yr ymrwymodd iddynt sy'n benodol i lwybr Cymru a'r Gororau. Mae gweithgareddau nodedig a gyflawnwyd wedi cynnwys atal tresmasu a throseddau, monitro cyflwr o bell, tasglu i optimeiddio amserlen mis Rhagfyr 2025 a rhaglen parodrwydd am dwf cludo nwyddau yn Port Talbot (a nodir isod).

Mae'r llwybr hefyd wedi ennill manteision gwella perfformiad yn sgil cwblhau 15 o weithgareddau'r cynllun rhanbarthol sydd wedi arwain at wella gallu, modelu amserlenni, gweithredu mewn tywydd garw, a dysgu oddi wrth ddigwyddiadau. Mae'r rhanbarth wedi datganoli amryw o'r adnoddau mae'r llwybr yn dibynnu arnynt i reoli perfformiad trenau ac mae'n cynllunio ar gyfer datganoli gweithredol pellach yn ystod yr haf hwn. Mae Network Rail yn adrodd gwneud cynnydd da hefyd gyda'i raglen gwrthsefyll tywydd, sy'n cynnwys llwybr Cymru. Mae disgwyl i'r rhaglen honno gael ei chwblhau ar ddiwedd 2028 a byddwn yn parhau i fonitro ei chynnydd.

Mae'r modd mae'r llwybr wedi canolbwyntio ei sylw ar berfformiad trenau wedi cefnogi gwelliant pellach mewn prydlondeb a dibynadwyedd trenau. Mae perfformiad 'Amser i 3' wedi parhau i wella, gan gynyddu o 76.0% yn 2024-25 i 79.0% yn 2025-26. Mae oedi i bob 1,000 o filltiroedd a achoswyd gan Network Rail hefyd wedi gwella a gwnaeth yn well na'i darged ei hun.

Mae gwelliant pellach wedi bod hefyd mewn trenau teithwyr a gafodd eu canslo eleni. Fe wnaethant leihau o 5.3% i 3.9% yn ystod y flwyddyn a gwneud yn well na'i darged ei hun.

Darparu ar gyfer cludo nwyddau

Bu gwelliant pellach o ran nifer y trenau nwyddau a gafodd eu canslo yn ystod y flwyddyn, gan leihau o 2.6% yn 2024-25 i 2.0% a chyrraedd targed y llwybr ar gyfer Blwyddyn 2 cyfnod rheoli 7 (CP7).

Gostyngodd twf cludo nwyddo ar lwybr Cymru a'r Gororau yn ystod y flwyddyn, a effeithiwyd gan lai o alw am ddeunyddiau adeiladu ac ansefydlogrwydd mewn traffig tanwydd (petrolewm). Mae Network Rail wedi gwneud paratoadau am gynnydd mewn llifau metet sgrap a ddisgwyllir pan gaiff y gwaith o adeiladu'r ffwrnais fwa drydan yn Port Talbot ei gwblhau. Mae wedi gwneud newidiadau i amserlen y rheilffordd er mwyn galluogi symudiad effeithiol trenau nwyddau ac mae wedi gwneud gwelliannau i seilwaith cludo nwyddau gyda phartneriaid ar gyfer gwirio llwythi'n well, goleuadau rheilffordd a chysgodfannau lles i staff ar y tir. Mae Network Rail hefyd wedi adeiladu system ddraenio newydd mewn lleoliad lle mae llawer o lifogydd, sydd wedi effeithio ar hygyrchedd trenau nwyddau i Ddociau Casnewydd. Disgwyliwn i Network Rail barhau i geisio cyfleoedd i gefnogi a chynyddu cludo nwyddau ar y rheilffordd.

Gwella dibynadwyedd asedau

Fe wnaeth dibynadwyedd asedau ar lwybr Cymru a'r Gororau, fel y mesurwyd wrth ddefnyddio'r Mynegai Dibynadwyedd Cyfansawdd (CRI), wella ychydig yn ystod y flwyddyn. Gorffennodd y llwybr y flwyddyn gyda sgôr CRI o 2.4% o gymharu â'i

darget o -5.8%. Golyga hyn ei fod 8.2 pwynt canran yn well na'i darged, a 2.4% yn well na'r hyn oedd ym mlwyddyn derfynol cyfnod rheoli 6 (CP6).

Mae CRI yn ffordd gyfansawdd o fesur saith grŵp o asedau. Fe wnaeth dibynadwyedd asedau pŵer trydanol, telecom a thrac y llwybr wella, tra bod dibynadwyedd ei asedau adeiladau, signalau a strwythurau wedi dirywio. Gwaethygodd dibynadwyedd yn fwyaf amlwg o ran signalau (-4.5%) a strwythurau (-2.1%) gyda'r naill a'r llall ohonynt yn methu â chyrraedd targedau'r llwybr. Gostwng hefyd a wnaeth dibynadwyedd adeiladau a phwyntiau ond fe wnaethant gyrraedd targedau'r llwybr.

Mae rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr fwy neu lai wedi cyflawni ei gynllun diwygiedig ar gyfer adnewyddu asedau yn ystod y flwyddyn, er ei fod wedi tan-gyflawni'n sylweddol wrth adnewyddu strwythurau. Mae'r rhanbarth wedi lleihau ei gynlluniau adnewyddu ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 oherwydd pwysau costau (gan gynnwys chwyddiant uchel), sydd wedi effeithio ar yr hyn a ragwelwyd ar gyfer cynaliadwyedd asedau, sy'n debygol o ostwng ymhellach nag a fwriadwyd ar gychwyn Cyfnod Rheoli 7 a syrthio'n fyr o'r targed a osodwyd gennym. Rydym wedi herio Network Rail i ddangos yn well sut y bydd yn lliniaru effeithiau cyflwr asedau a'i effaith ar ganlyniadau diogelwch a pherfformiad yn y dyfodol.

Mae'r rhanbarth wedi gweithredu rhywfaint ar asesiadau asedau strwythurol a chael gwared ar ôl-groniadau archwilio gweledol a manwl o eiddo gweithredol ond nid yw eto wedi cyrraedd trothwy cydymffurfio. Rydym wedi comisiynu adolygiad annibynnol i ganfod gwraidd achosion diffyg cydymffurfio, a fydd yn adrodd yn hydref 2026.

Gwella'r rhwydwaith

Mae gweithgarwch gwella ar lwybr Cymru a'r Gororau wedi parhau i ddatblygu'n gyson a graddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda Network Rail yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i weithredu cynlluniau sy'n cefnogi capasiti, cysylltedd a thwf gwasanaethau yn y dyfodol.

Maes allweddol o gynnydd oedd datblygu gwelliannau yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd. Mae Network Rail yn cydweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i gyflawni pecyn o welliannau, gan gynnwys clwydi ehangach a gwell, mynedfa ddeheuol newydd a mesurau i wella llif teithwyr trwy'r orsaf. Mae'r gwelliannau hyn yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol mewn capasiti a gwella profiad cyffredinol teithwyr yng ngorsaf brysuraf Cymru.

Mae cynlluniau pellach yn symud ymlaen a byddant yn chwarae rhan alluogi mewn gwella amserlenni a gallu'r rhwydwaith yn y dyfodol. Mae Cynllun Gwella Rheilffyrdd De Cymru yn ymyrraeth allweddol, sy'n cefnogi datblygu gorsafoedd newydd a gwasanaethau ychwanegol, a disgwylwn weld y cynllun hwn yn parhau i gynyddu yn y flwyddyn sy'n dod. Yn yr un modd, bydd gwelliannau yng Nghyffordd Padeswood

yn gwella mynediad i drenau nwyddau i'r derfynfa sment gerllaw gan greu capasiti ychwanegol hefyd ar gyfer gwasanaethau teithwyr a gwasanaethau nwyddau eraill.

Mae Network Rail yn parhau hefyd â'i raglen o ymyraethau croesfannau rheilffordd ledled Cymru. Bydd y gweithiau hyn yn cefnogi cynnydd mewn gwasanaethau yn y dyfodol trwy wella diogelwch a pherfformiad gweithredol a bydd yn elfen bwysig mewn galluogi gwelliannau ehangach i amserlenni.

Wrth edrych ymlaen, disgwyliwn i Network Rail barhau i symud ymlaen yn ddi-oed gyda'r cynlluniau hyn, gan sicrhau bod camau cynnar datblygiadau yn arwain tuag at ganlyniadau y gellir eu cyflawni. Bydd yn hanfodol parhau i gydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn cynnal momentwm a chyflawni ar fuddsoddiadau.

Edrych ymlaen at Flwyddyn 3 Cyfnod Rheoli 7

Dros y flwyddyn nesaf, edrychwn ymlaen at weld llwybr Cymru a'r Gororau yn adeiladu ar y gwelliant mewn perfformiad trenau mae wedi'i gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddarparu rhwydwaith sefydlog sy'n perfformio'n dda i deithwyr a chwsmeriaid nwyddau. Er yn cydnabod y pwysau costau mae'n gweithredu oddi tanynt, disgwyliwn i Network Rail liniaru dirywiad mewn cyflwr asedau a lleihau hyd eithaf eu gallu unrhyw effaith ar ddibynadwyedd a chanlyniadau'r rhwydwaith yn y dyfodol.

Yn gywir

Richard Coates